General Optical Council

Cod Ymddygiad

Y Cyngor Optegol Cyffredinol
41 Harley Street, Llundain W1G 8DJ
Ffôn +44 (0)20 7580 3898
Ffacs +44 (0)20 7307 3939
E-bost goc@optical.org

www.optical.org

Rhagair

Mae'n bleser gan y GOC gyhoeddi ei God Ymddygiad newydd ar gyfer Aelodau Cofrestredig Unigol. Ein gobaith yw y bydd y llyfryn hwn yn cynnig arweiniad defnyddiol i'r Cod ar gyfer aelodau cofrestredig, cleifion a'r cyhoedd.

Rhaid i bob optometrydd, optegydd dosbarthu, optometryddion dan hyfforddiant ac optegydd dosbarthu dan hyfforddiant barchu'r Cod Ymddygiad yn eu hymddygiad personol a phroffesiynol ar bob adeg. Os bydd aelod cofrestredig yn methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau a chyfrifoldebau a bennir yn y Cod Ymddygiad, byddant yn peryglu eu cofrestriad eu hunan.

Daw'r Cod Ymddygiad newydd i rym ar 1 Ebrill 2010, gan ymgorffori nifer o newidiadau. Tan 1 Ebrill 2010, rhaid i aelodau cofrestredig barhau i ddilyn Cod Ymddygiad 2005, sydd ar gael o **www.optical.org**

Mae newidiadau i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cofrestredig Unigol wedi cael eu llunio yn unol â'r gwerthoedd craidd sy'n sylfaen i waith y GOC, er mwyn sicrhau ei fod:

- Yn gymesur
- Yn atebol
- Yn gyson
- Yn dryloyw
- Yn bwrpasol

Diwygiwyd y Cod yn dilyn ymgynghori helaeth â chleifion a'r cyhoedd, aelodau cofrestredig, y cyrff optegol, a sefydliadau partner eraill. Mae manylion llawn ac adroddiad am y broses ymgynghori ar gael ar ein gwefan. Yn yr un modd â phob un o bolisïau'r GOC, rydym yn adolygu'r Cod Ymddygiad yn gyson i sicrhau ei fod yn aros yn deg, yn effeithiol ac yn gymesur.

Mae aelodau cofrestredig busnes (busnesau optegol a gofrestrir gyda'r GOC) yn cael eu rhwymo gan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cofrestredig Busnes, sydd ar gael o www.optical.org

Dian Taylor
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Cyflwyniad

Cod Ymddygiad y GOC ar gyfer Aelodau Cofrestredig Unigol

Rhaid bod cleifion (gan gynnwys cwsmeriaid) yn gallu ymddiried yn optometryddion, optegwyr dosbarthu, a'r sawl sy'n ymgymryd â hyfforddiant fel optometryddion ac optegwyr dosbarthu, o ran eu lles. I gyfiawnhau'r ymddiriedaeth honno, mae gennych ddyletswydd i gadw safon ymarfer a gofal dda, ac i ddangos parch tuag at bawb.

Ym mhob mater, rhaid i chi beidio byth â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn cleifion neu gydweithwyr a rhaid bod yn fodlon bob amser cyfiawnhau'ch camau.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio egwyddorion arfer da mewn ymddygiad proffesiynol a safonau ac yn pennu'r fframwaith ymddygiad sy'n ofynnol ym mhob agwedd ar waith proffesiynol. Mae'r egwyddorion yn gysylltiedig â'r gwerthoedd sydd wedi eu cytuno gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd fel rhai sy'n gyffredin i bob proffesiwn. Rhaid i bob aelod cofrestredig ymddwyn yn unol â'r egwyddorion a bennir yn y Cod hwn. Bydd methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau a chyfrifoldebau a bennir yn y Cod yn peryglu'ch cofrestriad.

Mae'r GOC yn cydnabod bod cyrff eraill wedi cyhoeddi arweiniad manwl mewn perthynas â'r materion sy'n cael sylw yn y Cod hwn. Disgwylir i chi gydymffurfio â safonau lleol a chenedlaethol perthnasol ar reolaeth glinigol a bod yn gyfarwydd â'r arweiniad a'r cyngor perthnasol a gyhoeddir gan sefydliadau eraill ac, yn benodol, yr hyn a gyhoeddir gan y cyrff proffesiynol a chynrychioliadol.

Bydd y GOC efallai'n cyfeirio at arweiniad a chyngor cyrff eraill wrth ymarfer ei swyddogaethau. Yn ogystal, Gall y GOC o bryd i'w gilydd ategu'r Cod gydag arweiniad ar faterion penodol.

Y Cod

Fel optometrydd, optegydd dosbarthu, neu berson sy'n ymgymryd â hyfforddiant fel optometrydd neu optegydd dosbarthu, wedi eich cofrestru, rhaid i chi:

1. Sicrhau mai gofal y claf yw'ch pryder pennaf a pharhaus;
2. Trin pob claf yn gwrtais ac yn ystyriol;
3. Parchu urddas a phreifatrwydd cleifion;
4. Gwrando ar gleifion a pharchu eu barn;
5. Rhoi gwybodaeth i gleifion mewn ffordd y gallant ei deall a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael; o ran caniatâd y claf, bod yn ymwybodol o'r canllawiau a gyhoeddir gan y cyrff proffesiynol a chydymffurfio â hwy;
6. Cadw cofnodion cleifion digonol;
7. Parchu hawliau cleifion i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am eu gofal;
8. Cadw'ch gwybodaeth a sgiliau proffesiynol yn gyfredol;
9. Cydnabod, a gweithredu o fewn, terfynau'ch cymhwysedd proffesiynol;
10. Bod yn onest ac yn ddibynadwy;
11. Sicrhau nad yw arferion ariannol a masnachol yn cyfaddawdu diogelwch cleifion;
12. Parchu a diogelu gwybodaeth gyfrinachol;
13. Gwneud yn si r nad yw credoau personol yn niweidio gofal cleifion;
14. Gweithredu'n gyflym i amddiffyn cleifion rhag risg lle bydd rheswm da i gredu eich bod chi, neu fod cydweithiwr, efallai heb fod yn addas i ymarfer, yn addas i ymgymryd â hyfforddiant, neu yn achos aelod cofrestredig busnes yn addas i gynnal busnes fel optometrydd, optegydd dosbarthu neu'r ddau[1];
15. Peidio byth â chamddefnyddio'ch safle proffesiynol;
16. Gweithio gyda chydweithwyr yn y ffyrdd sy'n diwallu buddiannau cleifion orau;
17. Cofrestru gyda'r GOC a chynnal y cofrestriad hwnnw;
18. Trefnu yswiriant digonol a phriodol i ymarfer yn y Deyrnas Unedig drwy gydol cyfnod eich cofrestriad[2];
19. Sicrhau nad yw'ch ymddygiad chi, p'un a yw'n gysylltiedig â'ch arfer proffesiynol neu beidio, yn niweidio hyder y cyhoedd ynoch chi neu yn eich proffesiynol.

Troednodiadau

1. Os oes gennych wybodaeth bwysig amdanoch chi eich hun, gweithwyr neu gyrff iechyd proffesiynol eraill, a all olygu nad oes gennych chi, neu nhw, y sgiliau, yr wybodaeth, y cymeriad neu'r iechyd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol, neu i haeddu ymddiriedaeth ynoch i weithredu'n gyfreithlon, rhaid i chi gymryd camau'n ddi-oed i amddiffyn cleifion. Yn y lle cyntaf dylech fel arfer roi gwybod am eich pryder i'ch cyflogwr, rheolwr neu berson priodol arall yn eich practis neu fusnes chi. Ond os nad oes person o'r fath ac ni ellir ymdrin â'r mater ar lefel y practis neu'r busnes, dylai'ch pryder gael ei adrodd i'r sefydliad gofal sylfaenol lleol. **Fodd bynnag, dylech hysbysu'r GOC:**

- Os na fyddai gweithredu ar lefel leol yn ymarferol;
- Os bydd gweithredu ar lefel leol wedi methu;
- Os yw'r broblem mor ddifrifol ei bod yn amlwg bod angen cynnwys y GOC;
- Os ydych yn ofni erledigaeth neu ymgais i gelu'r ffeithiau.

Rhaid i chi adael i'r GOC wybod ar unwaith os ydych:

- Wedi cael eich collfarnu o dramgwydd troseddol, eich collfarnu o dramgwydd troseddol sy'n arwain at eich rhyddhau'n amodol;
- Wedi derbyn rhybudd gan yr heddlu;
- Wedi eich disgyblu gan unrhyw sefydliad sy'n gyfrifol am reoleiddio neu drwyddedu gweithiwr proffesiynol iechyd neu ofal cymdeithasol;
- Wedi eich gwahardd rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion hawdd eu niweidio;
- Wedi cael eich gwahardd rhag gweithio dros dro neu eich gosod dan gyfyngiad ymarfer gan gyflogwr neu sefydliad tebyg oherwydd pryderon am eich addasrwydd i ymarfer;
- Yn dioddef o gyflwr iechyd y credai person rhesymol y gallai amharu ar eich addasrwydd i ymarfer.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Dylech gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad neu ymholiad ffurfiol am eich addasrwydd chi, neu addasrwydd gweithiwr iechyd proffesiynol arall, i ymarfer, addasrwydd i ymgymryd â hyfforddiant fel optometrydd neu optegydd dosbarthu, neu addasrwydd aelod cofrestredig busnes i gynnal busnes fel optometrydd, optegydd dosbarthu, neu'r ddau.

2. Rhaid i sefydliadau hyfforddi neu oruchwylwyr practis sicrhau bod eu trefniadau yswiriant yn darparu yswiriant digonol a phriodol ar gyfer pob person sy'n ymgymryd â hyfforddiant neu brofiad ymarferol y maent yn gyfrifol amdanynt. Cyfrifoldeb y sawl sy'n ymgymryd â hyfforddiant yw sicrhau bod y cyfryw yswiriant wedi cael ei ddarparu gan eu sefydliad hyfforddi neu oruchwylwyr practis.

Geirfa

Caniatâd claf: Pan fydd claf yn caniatáu i weithred neu driniaeth benodol fynd yn ei blaen.

Cofrestru: Rhaid i optometryddion ac optegwyr dosbarthu sy'n dymuno ymarfer yn y DU fod wedi eu cofrestru gyda'r GOC.**Rheolaeth glinigol:** Y system i sefydliadau gofal iechyd fod yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau'n gyson a diogelu safonau gofal uchel.

Cyrff proffesiynol a chynrychioliadol: Y term cyfunol a ddefnyddir i gyfeirio at y sefydliadau sy'n cynrychioli ac yn cefnogi'r proffesiynau optegol yn y DU. Maent yn cynnwys Cymdeithas yr Optometryddion, Cymdeithas Optegwyr Dosbarthu Prydain, Coleg yr Optometryddion a'r Ffederasiwn Optegwyr Offthalmeg a Dosbarthu.

Gofal sylfaenol: Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu a'r sawl sy'n gweithio gyda hwy gan gynnwys optegwyr.

Optegydd: Term cyfunol a ddefnyddir yn aml i gyfeirio at optometryddion ac optegwyr dosbarthu.

Optegydd dosbarthu: Mae optegydd dosbarthu yn gosod ac yn cyflenwi sbectol; gyda hyfforddiant pellach gallant osod lensys cyffwrdd hefyd.

Optometrydd: Optometrydd sy'n profi golwg, a gall hefyd osod a chyflenwi sbectol neu lensys cyffwrdd. Gyda hyfforddiant pellach, gallant gymhwyso i ragnodi rhai cyffuriau ar gyfer anhwylderau'r llygaid.